**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Petition P-06-1436
Ein cyf/Our ref: LN/05417/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai 2024, fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynghylch Deiseb P-06-1436 Dileu cynlluniau i newid strwythur y flwyddyn ysgol.

Rwy'n cydnabod y ddeiseb ac rwy'n ddiolchgar i chi am ei rhannu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi trafod gydag undebau'r gweithlu addysg, y gweithlu ysgolion yn fwy cyffredinol, plant a phobl ifanc, teuluoedd a chynrychiolwyr o sectorau eraill i ddatblygu'r cynigion a gyflwynwyd fel rhan o'r Ymgynghoriad diweddar ar y Flwyddyn Ysgol.

Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 12 Chwefror a rhoddodd gyfle i unigolion a grwpiau ledled Cymru roi eu mewnbwn ar y cynigion.

Rwy'n nodi'r pwyntiau a amlinellir yn nhestun y ddeiseb ac yn y wybodaeth ychwanegol.

Fel y dywedais yn fy Natganiad Llafar ar 4 Mehefin, rwyf wedi asesu'n llawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw - roedd dros 16,000 ohonynt - gan gynnwys ymatebion plant a phobl ifanc, teuluoedd, y rhai sy'n gweithio o fewn y system addysg a rhanddeiliaid eraill. Roedd yr ymatebion hynny'n gymysg iawn ac yn amwys. Mae hyn yn gydnaws â'r drafodaeth ehangach ar y mater a'r sylfaen dystiolaeth.

O'r herwydd, cadarnheais na fyddai penderfyniadau ar weithredu unrhyw newid i'r flwyddyn ysgol yn digwydd yn ystod tymor y Senedd hon. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ddiwygiadau eraill, megis y Cwricwlwm i Gymru newydd a'r diwygiadau o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol, gael eu gweithredu a'u cyflwyno'n llawn cyn ystyried unrhyw newidiadau pellach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dolenni at ganfyddiadau'r ymgynghoriad i'w gweld yma:

https://www.llyw.cymru/strwythur-y-flwyddyn-ysgol
https://www.gov.wales/structure-school-year

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn parhau i weithio ar y materion pwysig hyn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg